

NEWID Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol/Coleg



COD YMDDYGIAD



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government



WLGA · CLILC



	Tudalen
Ein Hymrwymiad Ni	2-3
Cod Ymddygiad Rhieni	4-5
Cod Ymddygiad wrth Deithio LICC	6-9
Gweithdrefnau Disgyblu	10-11
od Ymddygiad Gweithredwyr Cludiant	12-18
Cod Ymddygiad Gyrwyr a Chynorthwyrwr Teithwy	19-28
Cyfrifoldebau Ysgolion/Colegau	29-32

Ein Hymrwymiad Ni

Bwriad y Cyngor yw darparu cludiant ar gyfer dysgwyr lle mae ganddo gyfrifoldeb statudol i wneud hynny ar gyfer disgyblion/myfyrwyr i deithio yn ôl ac ymlaen o le perthnasol yn unol â Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru). Bydd natur y cludiant a ddarparwyd gan y Cyngor ar ffurf mae'r Cyngor yn ei ystyried na fydd yn achosi gofid, straen nag anhawster i'r graddau a fyddai'n atal disgyblion/myfyrwyr rhag elwa o'r addysg sydd ar gael. Dylai disgyblion/myfyrwyr fod yn gallu teithio'n ddiogel ac yn gymharol gysurus. Byddwn yn cymryd camau rydym yn eu hystyried yn angenrheidiol i fodloni ein hunain o addasrwydd y cerbydau a'r gyrwyr/chynorthwywyr teithwyr.

- Bydd gan rieni, ysgolion/collegau a chontractwyr fynediad at gyngor a chymorth yn ystod oriau swyddfa.
- Lle bynnag y bo'n bosibl, bydd cardiau teithio'n cael eu dosbarthu o fewn 10 diwrnod gwaith yn dilyn cais cymeradwy.
- Bydd y Cyngor yn sicrhau y bydd unrhyw offer arbennig, fel harneisiau neu seddau, yn cael eu darparu gan naill ai'r Cyngor neu'r gweithredwr os ystyrir hyn yn angenrheidiol.
- Bydd amserau teithiau ysgol yn cael eu cynllunio i fod mor fyr â phosibl, yn amodol ar ddarparu gwasanaeth effeithlon a chost effeithiol.
- Bydd y Cyngor yn hwyluso gwiriadau manylach y Swyddfa Cofnodion Troseddol a chofrestriad Awdurdod Diogelu Annibynnol (ISA) er mwyn sicrhau bod gyrwyr a chynorthwywyr teithwyr yn addas ar gyfer swydd sy'n cynnwys cludo plant.
- Bydd bathodynau adnabod yn cael eu paratoi a'u dosbarthu i yrwyr a chynorthwywyr teithwyr cymeradwy.

- Bydd diogelwch a safon gwasanaethau cludiant ysgol a llwybrau'n cael eu monitro yn rheolaidd.
- Mae'n bosibl y bydd teledu cylch cyfyng (CCTV) yn cael eu gosod ar gerbydau a ddefnyddir ar gyfer cludiant ysgol. Bydd y darnau ffilm yn cael eu trin yn gyfrinachol, ond gellir eu defnyddio fel tystiolaeth mewn achosion o gamymddwyn neu gamymddygiad.
- Byddwn yn cydweithio gyda'r contractwyr, rhieni, disgyblion/myfyrwyr a'r ysgolion/ colegau i ddatrys unrhyw broblemau ymddygiad sy'n codi ar wasanaethau cludiant ysgolion/ colegau.
- Mae angen rhoi gwybod i'r Cyngor sy'n darparu'r cludiant am unrhyw ddigwyddiadau ar eu gwasanaeth Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol/Coleg:

Cyngor Sir Penfro – 01437 775222

Cyngor Sir Gaerfyrddin – 01267 234567

Dinas a Sir Abertawe – 01792 636348

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot –
01639 686938**

- Bydd y Cyngor yn cadw log o'r holl ddigwyddiadau a gofnodwyd, yn archwilio pob digwyddiad ochr yn ochr â'r ysgol ac unrhyw barti perthnasol arall gan gymryd mesurau pellach lle y bo'n briodol.

Cod Ymddygiad Rhieni

- Mae rhieni, gwarcheidwaid a/neu ofalwyr yn gyfrifol am annog ymddygiad da a sicrhau bod eich plentyn yn cydymffurfio â Chod Ymddygiad wrth Deithio Llywodraeth Cynulliad Cymru. Felly, disgwylir i chi gefnogi'r Cyngor, yr ysgolion/colegau, a'r gweithredwyr a'u staff i gynnal ymddygiad da.
- Os yw eich plentyn yn rhan o ymddygiad gwael ar gludiant ysgol byddwch yn cael gwybod am y broses ddisgyblu cyn gynted ag y bo modd.
- Dylai fod yn hollol glir o'r cychwyn, mewn achosion o ymddygiad gwael y cam eithaf fyddai dwyn yr hawl i dderbyn cludiant oddi arnoch. Yn yr achosion hyn, chi fydd yn gyfrifol wedyn am drefnu cludiant a thalu'r gost lawn amdano.
- Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau diogelwch eich plentyn o'ch cartref i'r cludiant ysgol yn y boreau ac yn dod yn ôl oddi arno yn y nosweithiau. Felly dylid gwneud trefniadau goruchwyliaeth briodol, yn enwedig ar gyfer disgyblion cynradd.
- Dylai eich plentyn adael y tŷ yn y boreau mewn digon o amser i gyrraedd y bws fel nad oes angen brysio, yn enwedig os oes angen croesi ffordd.
- Yn ogystal, dylech sicrhau bod eich plentyn yn gwisgo dillad priodol.
- Yn y nosweithiau, dylai plentyn sydd angen croesi'r ffordd ar ôl dod oddi ar y bws, aros nes i'r bws yrru i ffordd cyn ceisio croesi'r ffordd fel eu bod yn gallu gweld y traffig a chael eu gweld. Os ydych yn cwrdd â'ch plentyn, dylech aros wrth yr arhosfan, ac nid yr ochr arall o'r ffordd.

- Fel rheol, yn y prynhawn bydd disgybl cynradd yn cael ei ollwng ger ei arhosfan benodedig. Os digwydd unrhyw newidiadau i'r trefniadau arferol, am ba reswm bynnag, dylech roi gwybod i'r gyrrwr neu'r cynorthwydd teithwyr (os oes un).
- Rhowch wybod i Uned Cludiant y Cyngor am unrhyw gyflwr meddygol sydd gan eich plentyn a fyddai, o bosibl, yn effeithio ar ei gludiant/ei chludiant.
- Rhowch wybod yn syth i Uned Cludiant y Cyngor am unrhyw newidiadau yn eich amgylchiadau, fel newid yn eich cyfeiriad. Os nad oes bellach arnoch angen eich cerdyn bws, rhaid i chi ei ddychwelyd i'r Cyngor ar unwaith. Mae'n bosibl y byddai defnyddio'r cerdyn bws pan nad yw bellach yn ddilys yn cael ei ystyried yn dwyll.
- Mae cardiau teithio'n gostus a byddwn yn codi tâl am eu hadnewyddu. Dylid rhoi gwybod ar unwaith i Uned Cludiant y Cyngor os ydych yn colli eich cerdyn teithio, a byddant yn eich cyngori ynglŷn â sut i gael un yn ei le.
- Os oes gennych unrhyw awgrymiadau ynglŷn â sut y gellir gwella ein Cod Ymddygiad, anfonwch eich adborth at y Cyngor sy'n darparu'r cludiant.

Mae eich diogelwch yn bwysig iawn. Rhaid i chi ymddwyn yn gyfrifol ac yn ddiogel wrth deithio i'r ysgol neu'r coleg ac oddi yno p'un ai ydych chi'n defnyddio bws, trên neu dacsï neu'n beicio neu'n cerdded neu'n defnyddio unrhyw ddull arall. Os byddwch chi'n defnyddio'r bws i fynd i'r ysgol neu'r coleg mae'n rhaid i chi ddilyn y rheolau yn y Cod Ymddygiad wrth Deithio ar Fysiau Ysgol.

Os nad ydych yn dilyn y Cod hwn, er eich diogelwch chi eich hun a diogelwch pobl eraill, gall yr awdurdod lleol, yr ysgol a'r coleg gymryd camau yn eich erbyn. Gall hyn olygu tynnu eich hawl i gael cludiant i'r ysgol oddi arnoch chi a hyd yn oed eich gwahardd o'r ysgol

Eich cyfrifoldeb

- Parchwch bobl eraill bob amser, gan gynnwys disgyblion eraill, y gyrwyr a'r cyhoedd.
- Parchwch y cerbydau a'r eiddo sydd ynddynt bob amser.
- Byddwch yn gwrtais bob amser.
- Peidiwch byth â thafllu sbwriel ar hyd y lle.
- Rhaid i chi ufuddhau i'r gyfraith bob amser.

Eich diogelwch

- Rhaid i chi ymddwyn yn dda bob amser wrth deithio.
- Rhaid i chi ddilyn cyfarwyddyd y gyrrwr bob amser wrth deithio.

- Peidiwch â thynnu sylw'r gyrrwr.
- Croeswch y ffordd yn ddiogel ac mewn modd synhwyrol bob amser.
- Defnyddiwch lwybr diogel wrth deithio bob amser.

Eich hawliau

- Bod yn ddiogel wrth deithio.
- Cael eich trin yn deg a chyda pharch.
- Dweud wrth rywun os yw rhywun neu os oes rhywbeth yn achosi problemau i chi.
- Peidio â chael eich bwlio neu eich poeni.

Ewch at athro, eich rhieni neu yrrwr y bws i ddweud am unrhyw achosion o gamymddwyn neu fwlio y byddwch yn eu gweld.



- Pan fyddwch yn aros wrth safle bws, gwnewch yn siwr eich bod yn aros mewn lle synhwyrol oddi ar y ffordd.
- Trefnwch gyda'ch rhieni beth i'w wneud os na fydd y bws yn cyrraedd neu os byddwch yn colli'r bws.
- Pan ddaw'r bws, arhoswch iddo stopio. Peidiwch byth â gwthio neu ruthro at y drws.
- Dangoswch eich pàs (os rhoddwyd un i chi) pan fyddwch yn mynd ar y bws.
- Os byddwch yn defnyddio bws ysgol rhaid i chi aros yn eich sedd am y siwrnai gyfan.
- Os byddwch yn defnyddio bws cyhoeddus rhaid i chi ddod o hyd i sedd wag os oes un ar gael i chi.
- Peidiwch byth â rhoi eich bag neu unrhyw beth arall sy'n perthyn i chi i lawr yr eil yng nghanol y bws.
- Gwisgwch y gwregys diogelwch bob amser os oes un ar gael.
- Rhaid i chi beidio â thynnu sylw'r gyrrwr pan fydd yn gyrru.
- Peidiwch byth â bwyta nac yfed ar y bws.
- Peidiwch byth â thafalu dim i mewn i'r bws nac oddi ar y bws.
- Peidiwch byth ag achosi difrod na fandaleiddio unrhyw ran o'r bws.

- Peidiwch byth â cheisio agor y drysau neu'r allanfeydd ar y bus, oni bai y bydd argyfwng.
- Dilynwch gyfarwyddiadau'r gyrrwr neu'r cynorthwydd teithwyr bob amser.
- Os digwydd damwain arhoswch ar y bus hyd nes y dywedir wrthoch chi am adael. Os nad yw'n ddiogel i aros ar y bus yna defnyddiwch yr allanfa fwya diogel i fynd oddi arno.
- Peidiwch byth â mynd ar y bus ac oddi arno hyd nes y bydd wedi stopio.
- Byddwch yn synhwyrol bob amser wrth fynd oddi ar y bus ac ewch â 'ch holl eiddo gyda chi.
- Peidiwch byth â chroesi'r ffordd o flaen y bus na chwaith y tu ôl i'r bus.

Gweithdrefnau Disgyblu

Mae'r Cyngor a'r ysgolion/colegau yn gyfrifol am gymryd camau disgyblu o ran ymddygiad disgyblion/myfyriwyr ar gludiant ysgol/coleg.

Gall y Cyngor dynnu yn ôl trefniadau teithio disgybl/myfyriwr os yw'n fodlon bod y disgybl/myfyriwr wedi methu cydymffurfio â'r Cod Ymddygiad.

Bydd y camau canlynol yn cael eu gweithredu cyn i'r Cyngor wneud penderfyniad i dynnu yn ôl yr hawl i gludiant ysgol:

- Bydd rhiant/gwarcheidwad y disgybl/myfyriwr dan sylw yn cael y cyfle i wneud cynrychiolaethau ar eu rhan a bydd y Cyngor yn ystyried y rhain.
- Bydd pennaeth yr ysgol/coleg perthnasol sydd â'r disgybl/myfyriwr ar eu cofrestr, yn cael ei ymgynghori am y penderfyniad i dynnu cludiant ysgol yn ôl ac yn derbyn rhybudd o leiaf 24 awr cyn i'r penderfyniad ddod i rym.
- Bydd rhiant/gwarcheidwad y disgybl/myfyriwr dan sylw yn derbyn o leiaf 24 awr o rybudd cyn i'r penderfyniad i dynnu cludiant ysgol yn ôl ddod i rym. Mewn achosion o gamymddygiad difrifol, gellir rhoi trefniadau eraill ar waith yn syth.

Bydd y Cyngor a'r ysgolion/ colegau yn defnyddio ystod raddedig o sancsiynau nominal. Bydd y Cyngor ac ysgolion/ colegau yn ymglymu rhieni/ gwarcheidwaid lle gosodwyd sancsiynau disgyblu ar waith. Os yw'r camymddygiad yn ddifrifol dros ben neu os yw'n parhau ar ôl rhoi rhybudd gall y Cyngor a'r ysgolion/ colegau hefyd argymhell tynnu yn ôl cludiant am ddim am gyfnod o amser. Os tynnwyd yn ôl cludiant addysg am ddim bydd y rhieni eu hun yn gyfrifol am wneud trefniadau teithio er mwyn sicrhau bod y disgybl/ myfyriwr yn parhau i fynychu (oni bai bod y disgybl/ myfyriwr wedi ei wahardd o'r ysgol hefyd).

Bydd y Cyngor ac ysgolion/ colegau yn gwneud safiad cadarn ac ni fyddant yn goddef camymddygiad ar gludiant addysg gan ei fod yn peryglu iechyd a diogelwch pob un sy'n teithio. Mae Rhieni/ Gwarcheidwaid yn gyfrifol am ymddygiad eu plant yn yr ysgol, ar gludiant ysgol ac yn y stryd. Disgwylir i rieni gefnogi'r mesuriadau disgyblu a gymerwyd gan y Cyngor a'r ysgolion/ colegau. Nodwch nad yw gwahardd eich plentyn oddi ar gludiant ysgol/ coleg yn newid eich cyfrifoldebau chi i sicrhau bod eich plentyn yn mynychu'r ysgol.

Gall unrhyw weithred o niwed troseddol arwain at weithredu gan yr heddlu a bydd rhieni'r tramgwyddwr yn gyfrifol am gost unrhyw atgyweiriadau fydd eu hangen.

Cod Ymddygiad Gweithredwyr Cludiant

Eich cyfrifoldeb chi yw darparu cludiant diogel yn unol ag Amodau Cytundeb darparu cludiant ac unrhyw Bolisi Rheoli Traffig a gynhyrchwyd gan yr ysgol/coleg. Bydd dull proffesiynol o ddarparu cludiant gennych chi a'ch staff yn gymorth i sicrhau bod teithwyr yn teithio'n ddiogel ac yn gysurus. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod unrhyw staff sy'n rhan o ddarparu cludiant ysgol o'r cartref i'r ysgol wedi darllen ac wedi deall cynnwys y Cod Ymddygiad hwn. O ganlyniad i fethu cwrdd â'r gofynion hyn mae'n bosibl y bydd eich taliadau cytundeb yn cael eu cwtogi, ac yn y pen draw bydd y cytundeb yn cael ei derfynu.

Eich gweithwyr

- Sicrhewch eich bod yn mabwysiadu ac yn cynnal y safonau gweithredu uchaf posibl, gan gynnwys darparu cerbydau sydd wedi eu cynnal yn dda, wedi eu trwyddedu a'u cyfarparu'n gywir, gyrwyr sydd wedi derbyn gwiriad manylach y Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB) ac wedi eu cofrestru gyda'r Awdurdod Diogelu Annibynnol a, lle y nodwyd, cynorthwywyr teithwyr addas. Bydd y Cyngor yn darparu hyfforddiant priodol ar gyfer gyrwyr a chynorthwywyr teithwyr lle bo angen.
- Sicrhewch fod yr holl staff perthnasol yn derbyn hyfforddiant digonol ar gynnwys y Cod hwn a'i weithredu.
- Dylai staff fod yn lân ac yn dderbyniol, ynghyd ag addas ac yn abl i ymgymryd â'r rôl.

- Dylech hysbysu Uned Cludiant y Cyngor yn syth os ydych yn cyflogi gyrrwr neu gynorthwydd teithwyr newydd, fel y gellir cynnal y Gwiriad CRB cywir. Ni ellir defnyddio unrhyw yrrwr na chynorthwydd teithwyr ar gludiant ysgol nes iddynt gael eu cymeradwyo gan y Cyngor.
- Sicrhewch fod bathodynau adnabod staff yn cael eu harddangos ar bob adeg.
- Sicrhewch fod eich staff yn mabwysiadu ac yn cynnal agwedd broffesiynol a chwrtais tuag at deithwyr. Rydych yn gyfrifol am ymddygiad eich gweithwyr.
- Sicrhewch fod eich gyrwyr yn ymwybodol o'r asesiadau risg a gynhaliwyd a'u bod yn gyfarwydd â'r siwrneiau y disgwyilir iddynt eu gweithredu.
- Gwnewch yn siwr bod rhifau ffôn y bobl y dylid cysylltu â hwy mewn achosion brys, hynny yw, chi eich hun, Uned Cludiant y Cyngor a'r ysgolion dan sylw, i'w cael ar y bws. Gwnewch yn siwr bod gan y gyrwyr ffonau symudol neu gyswllt radio â'r depo hafan mewn achos brys. Dylid defnyddio'r offer hyn pan mae'n ddiogel ac yn gyfreithiol i wneud hynny yn unig.
- Sicrhewch fod gyrwyr yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau os digwydd i'r cerbyd dorri i lawr neu yn achos damwain. Dylai gyrwyr gysylltu â'u pwynt cyswllt yn syth a bydd angen i chi drefnu cludiant arall ar unwaith, gan is-gontractio cwmni arall a ddilyswyd gan y cyngor os oes angen. Sicrhewch eich bod yn hysbysu Uned Cludiant y Cyngor am y trefniadau hyn ar unwaith drwy lenwi Ffurflen Adroddiad Gweithredol.

Eich Cerbydau

- Sicrhewch fod gan eich gyrwyr gerbyd â digon o seddau ar gyfer y nifer penodedig o deithwyr, gydag un sedd ar gyfer pob teithiwr.
- Sicrhewch fod arwydd rhif y daith a chludiant ysgol yn cael ei arddangos ar gerbydau pan maent yn gweithredu o dan gytundebau ysgol/ coleg.

Cyswllt gydag ysgolion/colegau

- Gwnewch yn siwr eich bod yn cadw mewn cysylltiad rheolaidd â'r ysgolion/colegau rydych yn eu gwasanaethu drwy'r aelod o staff a enwebwyd yn yr ysgol/coleg i ymdrin â materion cludiant.
- Bydd angen trefniadau arbennig ar gyfer disgyblion ysgol gynradd wrth iddynt drosglwyddo oddi ar eich bus i'r ysgol. Gwnewch yn siwr bod y gyrrwr yn cysylltu â phennaeth yr ysgol i gadarnhau trefniadau ar gyfer trosglwyddo disgyblion i ddwylo aelod cyfrifol o'r staff. Peidiwch byth â gollwng plant wrth yr ysgol heb eu trosglwyddo'n ffurfiol i aelod cyfrifol o'r staff.
- Dylai Uned Cludiant y Cyngor gael y wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn ag unrhyw drafodaethau rydych wedi eu cael ag ysgolion/colegau, yn enwedig os cynigwyd unrhyw newidiadau i drefniadau cludiant. Ni ddylid gwneud unrhyw newidiadau heb gymeradwyaeth ysgrifenedig yr Uned Cludiant.

Rhieni/Gwarcheidwaid Absennol

- Lle mae'r plant i'w cludo i'w cyfeiriad cartref yn y prynhawn ac nid yw eu rhiant/gwarcheidwad ar gael i'w derbyn, dylid dilyn y drefn ganlynol:
 - i. Rhowch wybod i Uned Cludiant y Cyngor am y sefyllfa ond yn y cyfamser ewch ymlaen â'r siwrnai sydd ar eich amserlen fel nad yw'r plant eraill sydd gennych yn cael eu rhwystro.
 - ii. Wrth i chi orffen eich siwrnai, ac os na chawsoch fwy o gyfarwyddiadau, cludwch y plentyn (plant) i'ch depo, os yw hynny'n bosibl. Bydd Uned Cludiant y Cyngor yn trefnu bod y plentyn (plant) yn cael eu casglu gan eu rhieni/gwarcheidwaid.
 - iii. Os nad yw'r ysgol neu'r Uned Cludiant yn gallu cysylltu â rhieni/gwarcheidwaid dan sylw, byddant yn rhoi rhif ffôn y Swyddog Adran Gwasanaethau Cymdeithasol sydd ar ddyletsydd i chi a fydd yn cysylltu â chi er mwyn sicrhau bod y plentyn (plant) yn cael eu cludo ymhellach yn ofalus

Newidiadau i'r ddarpariaeth

- Rhowch wybod yn syth i Uned Cludiant y Cyngor os, am unrhyw reswm, nad ydych yn gallu darparu'r cludiant dan gontract, naill ai dros dro neu'n barhaol. Dylid llenwi a dychwelyd Ffurflen Adroddiad Gweithredol ar y cyfle cyntaf.
- Mewn achos brys, byddai'n dderbyniol is-gontractio i weithredwr trwyddedig arall a gymeradwywyd gan y Cyngor, ond rhaid cynnwys manylion priodol yr is-gontractwr yn y Ffurflen Adroddiad Gweithredol llawn. Os nad yw'n bosibl is-gontractio, bydd yr Uned Cludiant yn gwneud trefniadau cludiant eraill ac fe godir tâl arnoch am unrhyw gostau ychwanegol a gafwyd.

- Yn ystod tywydd garw eich penderfyniad chi, ynghyd â'r Cyngor, yw ymgymryd â chytundeb ysgol neu beidio. Dylai'r penderfyniad gael ei gefnogi'n ddigonol gan ffurflen asesu risg wedi ei llenwi.
- Os nad yw un o'ch cerbydau chi'n gallu parhau â'r daith, cysylltwch ag Adran Cludiant y Cyngor. Yn ddibynnol ar amodau'r tywydd, amodau'r ffordd a rhagolygon y tywydd gall nifer o senarios ddilyn. Gan ddefnyddio'r wybodaeth sydd ar law a'r adnoddau sydd ar gael bydd Adran Cludiant y Cyngor yn cysylltu â chi i benderfynu ar y camau priodol. Gallai hyn amrywio o aros i'r tywydd garw fynd heibio, ailflaenoriaethu'r cyflenwad o gerbydau 4 x 4 a cherbydau graeanu er mwyn clirio ffyrdd, gofyn am gymorth gan y gwasanaethau brys neu hyd yn oed trefnu llety arall.
- Mae angen i yrwyr fod yn ymwybodol bod gallu adnoddau'r cyngor wrth law iddynt er eu bod yn teimlo o dan bwysau oherwydd yr amodau gyrru a'r disgyblion/myfyrwyr, a bod hyn yn gysur iddynt .
- Ni ddylai disgyblion/myfyrwyr adael y cerbyd.

Cardiau teithio bws

- Rhowch gyfarwyddiadau i yrwyr a chynorthwywyr teithwyr i wirio cardiau teithio bws yn ddyddiol. Mae'n bosibl y byddai'n well gan rieni plant ysgolion cynradd gadw cardiau teithio eu plant ar eu cyfer. Mae hyn yn dderbyniol ond dylid gwirio'r cardiau teithio yn y boreau.

- Gwnewch yn siwr bod y gyrwyr neu'r cynorthwywyr teithwyr yn nodi enw a gwybodaeth adnabod arall y disgyblion/myfyrwyr sydd wedi methu â dangos cerdyn teithio. Anfonwch y wybodaeth hon at Uned Cludiant y Cyngor a fydd yn cysylltu'n uniongyrchol â'r disgyblion/myfyrwyr a'r rhieni.
- Rhowch gyfarwyddyd i yrwyr a chynorthwywyr teithwyr i wrthod cludiant yn unig os ydynt wedi cael eu hysbysu gan Uned Cludiant y Cyngor eu bod i wrthod cludiant o ddyddiad penodol ymlaen. Yn yr achosion hyn bydd yr Uned Cludiant wedi anfon rhybudd o flaen llaw at y rhieni.
- Os nad oes gan ddisgybl/myfyriwr hawl i gludiant am ddim a bod y rhieni/gwarcheidwaid yn gwrthod prynu cerdyn teithio, ni ddylent gael yr hawl i deithio. Fodd bynnag, os nodwyd eu bod wedi defnyddio'r bws, rhoddir rhybudd iddynt hwy ac i chithau bod cludiant yn cael ei wrthod iddynt o ddyddiad penodol ymlaen. Yn dilyn hyn, bydd rhaid cyfarwyddo gyrwyr a chynorthwywyr teithwyr yn unol â hynny.

Ymddygiad Teithwyr

- Gwnewch yn siwr bod eich gyrwyr yn rhoi gwybod i chi ar unwaith am unrhyw achosion o gamymddwyn difrifol gan deithwyr. Anfonwch adroddiad am y digwyddiad i Uned Cludiant y Cyngor ar y ffurflen adrodd am ddigwyddiadau ar unwaith. Cynghorwch eich gyrwyr i gael cymaint o wybodaeth â phosibl am natur y digwyddiad a'r bobl oedd yn rhan ohono. Rhaid cyflwyno'r adroddiadau am y digwyddiad cyn gynted â phosibl, ac o fewn 24 awr beth bynnag. Yn dilyn hyn, bydd Uned Cludiant y Cyngor yn trefnu archwilio i'r mater ar y cyd â'r ysgol/ coleg, a hynny cyn gynted ag y bo modd.

- Peidiwch â gwahardd unrhyw deithiwr oddi ar y bws os yw wedi bod yn rhan o weithred camymddwyn. Wrth gwrs, gall y gyrrwr stopio'r bws er mwyn galw am drefn neu gysylltu â'i ganolfan neu'r heddlu ar y cyfle cyntaf os yw'r digwyddiad yn cael ei ystyried yn un difrifol iawn a bod diogelwch y teithwyr mewn perygl. Os digwyddodd yn y bore, rhowch wybod i'r ysgol wrth i chi gyrraedd ac wedyn llenwch y ffurflen adrodd am ddigwyddiadau fel y nodwyd uchod.
- Bydd llenwi Ffurflen Adrodd am Ddigwyddiadau yn brydlon yn helpu'r Uned Cludiant i ddatrys problemau'n gyflym ac yn cynnig sail gwybodaeth rheoli ar gyfer datblygiadau gwasanaeth yn y dyfodol. Yn ogystal, mae'n hanfodol o ran galluogi'r ysgol i ddisgyblu'r tramgwyddwyr. Mae'r manylion cyswllt ar gyfer yr Uned Cludiant i'w cael ar ddechrau'r Cod Ymddygiad hwn
- Peidiwch â chymryd camau disgyblu eich hunan (e.e. drwy wahardd myfyrwyr o'ch cerbydau), heb dderbyn yn gyntaf cymeradwyaeth Uned Cludiant y Cyngor. Ni fyddwn yn afresymol o ran atal y gymeradwyaeth honno.

Cludo pobl heb awdurdod..

- O dan unrhyw amodau, ni ddylid caniatáu i unigolyn na chafodd ei awdurdodi gan y Cyngor deithio ar gludiant ysgol.

Cod Ymddygiad Gyrwyr a Chynorthwyrwr Teithwyr

Cyfrifoldeb y gyrrwr a'i gyflogwr yw diogelwch y disgyblion/myfyrwyr sy'n teithio ar fws ysgol/coleg. Felly, mae'r Cyngor yn disgwyl lefel uchel o broffesiynoldeb ar ran y gyrrwyr wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau. Darllenwch a dilynwch y Cod Ymddygiad hwn a gafodd ei gynllunio er mwyn hyrwyddo cludiant ysgol diogel ac effeithlon. Mae eich cydweithrediad yn hanfodol.

Cyn y Siwrnai

- Gwnewch yn siwr eich bod yn hollol ymwybodol o weithdrefnau'r cwmni o ran delio â damweiniau, y bws yn torri i lawr a thywydd garw.
- Gwnewch yn siwr bod gennych naill ai ffôn symudol neu radio dwyffordd a bod gennych y rhifau ffôn sydd eu hangen arnoch mewn achosion brys - h.y. rhif eich depo, ysgol(ion) ac Uned Cludiant y Cyngor.
- Gwnewch yn siwr bod rhif y daith wedi ei arddangos yn amlwg ar flaen y bws a bod yr arwyddion bws ysgol wedi eu harddangos yn gywir ar flaen a chefn y bws

Yn Ystod y Daith

- Cyrhaeddwch ac arhoswch yn y manau casglu a gostwng dynodedig mewn digon o amser. Peidiwch byth â gadael yn gynnar.
- Cymerwch ofal wrth i chi gyrraedd pob arhosfan, yn enwedig os oes nifer fawr o ddisgyblion/myfyrwyr yn aros.

- Rhaid i chi ddefnyddio goleuadau rhybuddio wrth i ddisgyblion/myfyrwyr ddod ar y bws ac wrth iddynt adael y bws neu bryd bynnag mae amgylchiadau eraill yn galw amdanynt.
- Cofiwch mai eich cyfrifoldeb chi yw diogelwch y teithwyr ar y bws. Gwnewch yn siwr eich bod yn cau drws y bws cyn i chi ddechrau symud i ffwrdd o bob pwynt casglu a'u cadw ar gau nes i chi gyrraedd pob arhosfan a'r bws yn hollol lonydd.
- Stopiwch y bws wrth arhosfan benodol, man aros digonol oddi ar y ffordd neu ar yr ochr agosaf at y ffordd lle gall teithwyr ddod ar y bws neu fynd oddi arno yn ddiogel.
- Gwiriwch fod cerdyn teithio dilys gan bob disgybl/myfyriwr sy'n dod ar y bws. Mae'n bosibl y bydd yn well gan rieni plant ysgolion cynradd gadw cardiau teithio iddynt. Mae hyn yn dderbyniol ond mae'n rhaid eu dangos bob bore. Dylai disgyblion/myfyrwyr heb gerdyn teithio ddarparu llythyr esboniadol gan eu hysgol/coleg.
- Dylai disgybl/myfyriwr sy'n methu â dangos ei gerdyn teithio gael teithio ar y bws ond dylid nodi ei enw, ysgol/coleg, rhif ei ddosbarth neu enw ei athro/athrawes ddosbarth. Dylid trosglwyddo'r rhain i'ch cwmni a fydd yn eu hanfon at Uned Cludiant y Cyngor. Yn ystod wythnos gyntaf pob tymor yr hydref mae'n bosibl na fydd disgyblion/myfyrwyr wedi derbyn eu cardiau teithio ac felly bydd angen i chi ddefnyddio eich disgresiwn o ran cofnodi a rhoi gwybod am eu manylion.
- Gallwch wrthod taith yn unig ar yr amod eich bod wedi derbyn hysbysiad penodol o flaen llaw gan Uned Cludiant y Cyngor drwy eich cyflogwr. Rhaid i chi wrthod teithio o'r dyddiad a roddwyd. Bydd rhieni'r disgybl/myfyriwr wedi derbyn rhybudd o flaen llaw gan y Cyngor yn nodi y bydd cludiant yn cael ei wrthod o'r dyddiad hwnnw.

- Ni ddylech fyth o dan unrhyw amgylchiadau ganiatáu i rywun nad yw wedi cael ei awdurdodi gan y Cyngor i deithio ar fws ysgol.
- Cymerwch bob gofal rhesymol i sicrhau diogelwch y teithwyr gan gynnwys gwisgo gwregys diogelwch os ydynt ar gael ar y bus.
- Peidiwch â gyrru i ffwrdd nes bod y disgyblion/myfyrwyr yn eistedd.
- Wrth baratoi i yrru i ffwrdd o'r arhosfan talwch sylw o unrhyw un sy'n cyrraedd yn hwyr ac efallai yn mentro i ddal y bus.
- Os oes angen i chi gysylltu â gwasanaeth arall er mwyn trosglwyddo teithwyr neu i gasglu teithwyr, gwnewch yn siwr eich bod yn cyrraedd y man casglu o leiaf pum munud cyn yr amser cyswllt ac arhoswch gyda'r teithwyr nes i'r bus cysylltiol gyrraedd.
- Gyrrwch eich bus yn ddiogel ac yn ystyriol, gydag elfen uchel o broffesiynoldeb ac â diogelwch a chysur eich teithwyr yn flaenllaw yn eich meddwl. Dylech fod yn ymwybodol o ddefnyddwyr eraill ar y ffordd, gan gynnwys rhai sy'n cerdded, a cheisiwch ragweld yr hyn maent am ei wneud.
- Peidiwch â chaniatáu i deithwyr sefyll ar bwys eich caban neu'r parth gyrru, nac i weithredu unrhyw ddyfais sydd ar y bus (e.e. y drysau) tra bod y bus yn symud.
- Peidiwch byth â gyrru gyda drysau'r bus ar agor.
- Os nad yw'n bosibl i chi ddilyn y llwybr penodedig, oherwydd amodau tywydd nad oedd yn bosibl i'w rhagweld neu oherwydd gweithfeydd ffordd, gwnewch yn siwr nad yw'r manau aros rydych yn eu defnyddio yn golygu y bydd angen i blant gerdded pellter hir heb unrhyw oruchwyliaeth.

- Os oes damwain, os yw eich bws yn torri lawr neu os oes unrhyw beth arall yn eich rhwystro rhag gorffen y daith, rhaid i chi ystyried diogelwch eich teithwyr yn gyntaf. Dylid dweud wrth deithwyr am aros yn eu seddau oni bai ei bod yn beryglus iddynt wneud hynny. Os nad yw'n ddiogel, dylent gael eu harwain i le diogel i ffwrdd o'r ffordd fawr a thraffig arall os yw'n bosibl.
- Mewn achos brys dylech alw am help drwy ba ffordd bynnag sy'n bosibl. Defnyddiwch ffôn symudol os yw eich cyflogwr wedi darparu un, ond dim ond os yw'n ddiogel ac yn gyfreithlon i chi wneud hynny. Os oes gennych gynorthwyydd teithwyr, dylai un ohonoch aros gyda'r teithwyr. Ar gludiant ysgolion uwchradd, yn ddibynnol ar y lleoliad a'r amgylchiadau, gellir gofyn i fyfyrwr hŷn i fynd am gymorth. Peidiwch byth â gadael y plant heb eu goruchwyllo.
- Mewn achosion brys/damweiniau, dylech gysylltu â'ch depo yn gyntaf ac wedyn Uned Cludiant y Cyngor neu'r ysgol os nad oes rhywun ar gael yn eich depo eich hun

Ar Ddiwedd y Daith

- Gwnewch yn siwr bod eich disgyblion yn cyrraedd yr ysgol o fewn yr amser a gytunwyd.
- Parciwch ar yr un ochr o'r ffordd â'r ysgol ac mor agos i'r mynediad â phosibl (neu'n well byth, ar y safle penodedig ar eich cyfer ar dir yr ysgol)
- Peidiwch ag agor drysau'r bws nes ei fod yn sefydlog, a gwnewch yn siwr ei bod yn ddiogel i chi wneud hynny.

- Wrth hebrwng plentyn cynradd i'w arhosfan ef/hi, os nad yw rhiant/gwarcheidwad y plentyn yno i'w gyfarfod ef/hi dilynwch y camau isod ynghylch Rhieni/Gwarcheidwaid Absennol.
- Cadwch lygad allan am ddisgyblion/myfyrwyr sy'n rhedeg yn ôl i gasglu pethau maent wedi eu gadael ar y bws.
- Os oes rhaid i ddisgyblion/myfyrwyr fynd allan drwy ddrws cefn bws mini gwnewch yn siwr eu bod yn cael eu goruchwylio.
- Chwiliwch am unrhyw eiddo a adawyd yn ddamweiniol gan deithwyr ar y bws ac os ydych yn gwybod pwy yw'r perchennog rhwch yr eiddo yn ôl i'r perchennog ar y daith nesaf neu rhwch yr eiddo i mewn yn yr ysgol neu i'ch cyflogwr.
- Chwiliwch am unrhyw ddifrod a allai ddigwydd yn ystod y siwrnai ac os oes difrod nodwch hynny ar Ffurflen Adrodd am Damweiniau a dychwelwch hi i Uned Cludiant y Cyngor.

Rhieni/Gwarcheidwaid Absennol

- Lle mae'r plant i'w cludo i'w cyfeiriad gartref yn y prynhawn ac nid yw eu rhiant/gwarcheidwad ar gael i'w derbyn, dylid dilyn y drefn ganlynol:
 - i. Rhwch wybod i Uned Cludiant y Cyngor am y sefyllfa ond yn y cyfamser ewch ymlaen â'r siwrnai sydd ar eich amserlen fel nad yw'r plant eraill sydd gennych yn cael eu rhwystro.
 - ii. Wrth i chi orffen eich siwrnai, ac os na chawsoch fwy o gyfarwyddiadau, cludwch y plentyn (plant) i'ch depo, os yw hynny'n bosibl. Bydd Uned Cludiant y Cyngor yn trefnu bod y plentyn (plant) yn cael eu casglu gan eu rhieni/gwarcheidwaid.

iii. Os nad yw'r ysgol neu'r Uned Cludiant yn gallu cysylltu â rhieni/gwarcheidwaid dan sylw, byddant yn rhoi rhif y Swyddog Adran Gwasanaethau Cymdeithasol sydd ar ddyletswydd i chi a fydd yn cysylltu â chi er mwyn sicrhau bod y plentyn (plant) yn cael eu cludo ymhellach yn ofalus.

Tywydd Garw

- Yn ystod tywydd garw penderfyniad y gweithredwyr, ynghyd â'r Cyngor, fyddai gwneud y siwrnai ysgol neu beidio. Dylai'r penderfyniad gael ei gefnogi'n ddigonol gan ffurflen asesu risg wedi ei llenwi.
- Yn ystod tywydd garw eich cyfrifoldeb chi yw cadw eich bws a'r teithwyr dan reolaeth ar bob adeg.
- Yn y lle cyntaf, ystyriwch a yw'n briodol i chi adael safle'r ysgol. Os ydych yn penderfynu aros cysylltwch ag Adran Cludiant y Cyngor fel y gellir rhoi trefniadau eraill ar waith.
- Pan neu os na fydd eich bws yn gallu parhau â'r daith, cysylltwch ag Adran Cludiant y Cyngor. Yn ddibynnol ar amodau'r tywydd, amodau'r ffordd a rhagolygon y tywydd gall nifer o senarios ddilyn. Fodd bynnag, mae bron yn sicr mai'r lle diogelaf i'r disgyblion/myfyrwyr yw aros ar y bws. Peidiwch byth â gofyn i neb adael y bws. Os yw'n bosibl, cadwch yr injin i fynd a rhowch sicrwydd i'r disgyblion/myfyrwyr. Gan ddefnyddio'r wybodaeth sydd wrth law a'r adnoddau sydd ar gael bydd Adran Cludiant y Cyngor yn cysylltu â chi i benderfynu ar y camau priodol. Gallai hyn amrywio o aros i'r tywydd garw fynd heibio, ailflaenoriaethu'r cyflenwad o gerbydau 4 x 4 a cherbydau graeanu er mwyn clirio ffyrdd, gofyn am gymorth gan y gwasanaethau brys neu hyd yn oed trefnu llety arall.

- Peidiwch â gadael disgyblion/myfyrwyr oddi ar y bws.
- Mae angen i yrwyr fod yn ymwybodol bod gallu adnoddau'r Cyngor wrth law iddynt er eu bod yn teimlo o dan bwysau oherwydd yr amodau gyrru a'r disgyblion/myfyrwyr, a bod hyn yn gysur iddynt

Gweithio gyda phlant

- Ystyrir oedolion fel unigolion cyfrifol ar bob adeg a rhaid iddynt gydnabod yr angen am agwedd gyfrifol aeddfed mewn unrhyw sefyllfa a allai godi ac sydd yn codi wrth gludo plant.
- Rhaid i chi osgoi unrhyw gysylltiad corfforol â phlant oni bai y derbyniwch gyfarwyddiadau neu y gofynnir i chi'n ffurfiol i wneud hynny er mwyn cynorthwyo disgybl/myfyriwr llai abl yn gorfforol.
- Peidiwch â thrafod materion o natur amhriodol â phlant, ymhlith y materion yr ystyrir eu bod o natur amhriodol:
 - i. Alcohol
 - ii. Cyffuriau
 - iii. Materion personol
 - iv. Rhyw
 - v. Trais

Nid yw'r rhestr yn gyflawn ac arweiniad yw o ran yr hyn sy'n amlwg.

- Meddyliwch am yr iaith rydych yn ei defnyddio a cheisiwch osgoi defnyddio unrhyw regfeydd.

- Rhaid i chi drin yr holl ddisgyblion/myfyrwyr yn gydradd ac yn gyson a pheidiwch â gadael eich hun yn agored i honiadau o erledigaeth neu ffafriaeth.
- Rhaid osgoi gwrthdaro â phlant. Mewn achosion o ddiffyg disgyblaeth rhaid i'r plant gael eu cludo i'r man gollwng penodedig. Mewn rhai achosion gall y cerbyd ddychwelyd i'r ysgol gyda chytundeb yr Uned Cludiant. Dylid adrodd yn ôl am y digwyddiad ar unwaith i'ch cyflogwr/cwmni. Dylai eich cwmni/cyflogwr roi gwybod i Uned Cludiant y Cyngor am y digwyddiad drwy lenwi Ffurflen Adrodd am Digwyddiadau o fewn 24 awr.
- Peidiwch â chymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd sydd yn niweidiol i les a budd unrhyw blentyn rydych yn ei gludo.

Lles plant

- Fel rhywun sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc gallwch helpu i'w cadw'n ddiogel drwy gadw llygad allan am arwyddion neu ddangosyddion o gam-drin, niwed neu esgeulustod, ac wedyn gweithredu'n briodol yn gynnar.
- Edrychwch allan am:
 - i. Arwyddion corfforol o gam-drin neu esgeulustod. Gallai hyn gynnwys cleisiau, llosgiadau, toriadau (esgyrn wedi torri), neu lanweithdra gwael.
 - ii Arwyddion ymddygiadol o gam-drin neu esgeulustod. Gallai hyn gynnwys dangos emosiwn prin neu ddim o gwbl pan maent wedi eu brifo, yn ochelgar o'u rhieni, cam-drin alcohol neu gyffuriau, neu ymddygiad rhywiol amhriodol i'w hoedran.
 - iii. Os yw'r plentyn yn datgelu eu bod wedi cael eu cam-drin.
- Os oes gennych unrhyw bryderon o ran unrhyw un o'r uchod dylech gysylltu â'r Cyngor perthnasol.

- Os yw ymddygiad unrhyw oedolyn (gan gynnwys cydweithwyr ac aelodau o'r cyhoedd) tuag at blant a phobl ifanc yn fater o ofid i chi:
 - i. Peidiwch â diystyru eich pryderon.
 - ii. Peidiwch â mynd i'r afael â'r unigolyn rydych yn pryderu yn ei gylch.
 - iii. Os yw'n unigolyn sydd â chyfrifoldeb proffesiynol dros blant a phobl ifanc trafodwch eich pryderon gyda rheolwr llinell yr unigolyn hwnnw. Os ydych yn teimlo bod hyn yn amhriodol, neu os nad ydych yn fodlon â'r ymateb a gawsoch, cysylltwch â'r unigolyn perthnasol yn eich Cwmni neu'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'n bwysig iawn nad ydych yn anwybyddu nac yn diystyru eich amheuan.
- Gwnewch yn siwr eich bod yn cadw ffiniau proffesiynol clir rhyngoch chi â'r disgyblion/myfyrwyr rydych yn eu cludo.

Ymddygiad Cyffredinol

- Peidiwch ag yfed alcohol, na chymryd cyffuriau neu foddion a allai effeithio ar eich gyrru cyn i chi yrru bws cludiant ysgol neu yn ystod eich gwaith.
- Peidiwch ag yfed na bwyta tra ar ddyletswydd cludiant ysgol.
- Peidiwch ag ysmegu ar unrhyw adeg tra ar y bws neu ar dir yr ysgol.
- Byddwch yn lân a derbyniol.
- Cofiwch drin disgyblion/myfyrwyr â pharch a byddwch yn gwrtais a chyfeillgar. Bydd angen i chi fod yn gadarn, ond ni ddylech ddefnyddio iaith anweddus nac ymddygiad bygythiol ar unrhyw adeg.

- Rhowch wybod i'ch cwmni yn syth am unrhyw achosion o ddiffyg disgyblaeth ar ran disgybl/myfyriwr ac os ydych yn teithio i'r ysgol rhowch wybod i aelod priodol o staff yr ysgol hefyd wrth i chi gyrraedd yr ysgol. Dylid cofnodi pob digwyddiad ar y ffurflen adrodd briodol a'i hanfon at Uned Cludiant y Cyngor o fewn 24 awr. Lle bynnag y bo'n bosibl, cofnodwch enwau'r disgyblion/myfywrwr dan sylw a rhifau eu cardiau teithio.
- Mewn achosion o gamymddwyn difrifol mae gennych yr awdurdod i stopio'r bws os oes angen i geisio adfer trefn a chysylltu â'ch depo dros y ffôn. Nid oes gennych yr awdurdod i droi disgyblion/myfywrwr oddi ar y bws ar y daith a'u gadael i wneud eu ffordd eu hunain i'r ysgol neu adref. Gallai ymddygiad fel hyn beryglu eu diogelwch. Mewn sefyllfa lle mae disgybl/myfyriwr yn ceisio gadael o'i ddewis/dewis ei hun, dylid gwneud pob ymdrech bosibl i'w perswadio ar lafar i aros ar y bws, ac os yw hyn yn methu ac maent yn gadael y bws dylech gysylltu â'r depo ar unwaith a byddant yn eu tro'n cysylltu ag Uned Cludiant y Cyngor i roi gwybod iddynt am y digwyddiad.
- Os digwydd camymddygiad difrifol ar adegau eraill efallai y byddwch am ystyried un o'r camau gweithredu canlynol:
 - i. Os ydych yn dychwelyd o'r ysgol ond yn parhau o fewn cyrraedd hawdd iddo, ewch yn ôl i'r ysgol a rhowch y manylion am y troseddwr i staff yr ysgol,
 - ii. Mewn achosion difrifol dros ben, gyrrwch i'r orsaf heddlu agosaf. Mae'n rhaid i chi ystyried a fyddai'r oedi hyn cyn gorffen y daith ddim ond yn gwneud pethau'n waeth. Yn ymarferol, efallai byddai'n well gorffen y daith yn y ffordd arferol ac adrodd y manylion am y digwyddiad yn sydyn.
- Dangoswch leoliad diffoddwyr tân brys, y blwch cymorth cyntaf a'r drysau brys i'r disgyblion/myfywrwr ar ddechrau pob tymor neu pan mae eu lleoliad yn newid ar fws gwahanol, ynghyd â'r ffordd i'w gweithredu.

Cyfrifoldebau Ysgolion/Colegau

- Mae gan yr ysgolion/colegau ar y cyd ag Uned Cludiant y Cyngor rôl allweddol i'w chwarae yng nghludiant diogel disgyblion/myfyrwyr yn ôl ac ymlaen o'r sefydliadau addysgol amrywiol ledled y Sir.
- Mae gan bob parti brif rôl i'w chwarae wrth osod a chynnal safonau ymddygiad disgyblion/myfyrwyr a fydd yn helpu i sicrhau diogelwch pawb sydd yn defnyddio'r ffordd.
- Dylai Cyrff Llywodraethu Ysgolion godi ymwybyddiaeth am God Ymddygiad wrth Deithio Llywodraeth Cynulliad Cymru, gan ei hyrwyddo a sicrhau ei fod wedi ei ymgorffori ym Mholisi Ymddygiad a Disgyblu Ysgolion. Hefyd, dylent wneud yr hyn a allent i godi ymwybyddiaeth am God Ymddygiad Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol/Coleg SWWITCH.
- Os oes unrhyw achos o ddigwyddiadau neu doriadau posibl o'r Codau hyn yn dod i sylw ysgol/coleg dylid hysbysu Uned Cludiant y Cyngor priodol, y ceir eu manylion ar flaen y ddogfen hon.
- Cynlluniwyd y nodiadau canllaw a geir o fewn y cod ymddygiad hwn i gynorthwyo ysgolion/colegau gyda gweinyddiaeth a goruchwyliaeth proses cludiant ysgol/coleg ar sail feunyddiol.
- Sicrhewch fod aelod o staff ar gael i oruchwylio disgyblion/myfyrwyr wrth iddynt gyrraedd neu'n gadael ar gludiant o'r cartref i'r ysgol/coleg.

- Lle mae plant ysgolion cynradd yn y cwestiwn, gofynnir i ysgolion oruchwylio plant wrth iddynt gyrraedd a gadael tir yr ysgol a'r cerbydau.
- Cysylltwch â'r gweithredwyr er mwyn gwneud y trefniadau mwyaf priodol o ran amgylchiadau penodol yr ysgol/coleg.
- Mae Uned Cludiant y Cyngor ar gael i roi cyngor ac i weithredu fel canolwyr os oes galw.
- Gwiriwch y cludiant a ddarparwyd ar gyfer eich sefydliad yn rheolaidd a rhowch wybod i Uned Cludiant y Cyngor am unrhyw fater o bwys, gan ddefnyddio Ffurflenni Adrodd am Ddigwyddiad y Cyngor. Trefnwch i anfon yr adroddiad at Uned Cludiant y Cyngor ar yr un diwrnod â'r digwyddiad drwy ddefnyddio peiriant ffacs neu neges e-bost. Bydd adroddiad ysgrifenedig prydlon yn cynorthwyo'r Uned i ddatrys materion yn gyflym a darparu sail rheoli gwybodaeth ar gyfer datblygu'r gwasanaeth yn y dyfodol.
- Os digwydd i gerbyd fethu â chyrraedd ar unrhyw adeg, rhowch wybod i Uned Cludiant y Cyngor ar unwaith. Peidiwch â chysylltu â gweithredwr y bus yn uniongyrchol. Bydd y Cyngor yn ymchwilio i'r mater yn uniongyrchol ac yn gwneud trefniadau eraill os oes angen. Os yw'r broblem yn codi ar adeg casglu plant/myfyrwyr o'r ysgol/coleg, cadwch y disgyblion/myfyrwyr gyda'i gilydd nes i'r cerbydau eraill gyrraedd yn eu lle.

- Gwnewch yn siwr bod y manau gadael a chodi wedi eu marcio'n glir ac yn cynnig ffordd ddiogel o ddod i mewn ac allan o'r ysgol/coleg.
- Hysbyswch yr heddlu os yw ceir preifat yn rhwystro manau aros neu barthau parcio cyfyng y tu allan i'r ysgol/coleg.
- Helpwch ni i ddarparu amgylchedd diogel i ddisgyblion/myfyrwyr deithio yn ôl ac ymlaen o'r ysgol/coleg drwy ymchwilio i unrhyw honiadau o gamymddygiad neu ymddygiad annoeth o ran disgybl/myfyriwr a hynny cyn gynted â phosibl yn ymarferol ar ôl i chi dderbyn adroddiad am ddigwyddiad.
- Rhowch bob cymorth posibl i ddarganfod y troseddwyd a chydweithwch yn agos gydag Uned Cludiant y Cyngor i ddilyn y camau gweithredu priodol mae'n rhaid eu dilyn. Gall hyn gynnwys:
 - i. Cyfweliad gyda'r rhieni.
 - ii. Tynnu cludiant ysgol yn ôl dros dro.
 - iv. Trefnu i droseddwyd glanhau cerbydau lle bo'n briodol.
 - v. Cynnwys yr heddlu mewn achosion o ddifrod troseddol neu ymosodiad.
- Rhowch rybudd ysgrifenedig i Uned Cludiant y Cyngor yn ei hysbysu am ddyddiadau hyfforddiant mewn swydd a dyddiau cau yn yr ysgol ar ddechrau'r flwyddyn academaidd, neu ar yr hwyr, o leiaf 28 diwrnod o flaen llaw. Bydd yr Uned Cludiant yn hysbysu'r gweithredwr o flaen llaw, ac felly'n osgoi unrhyw wariant dianghenraid. Bydd methu darparu rybudd yn codi costau ychwanegol.
- Nodwch ddefnydd cludiant a theithiau ysgolion ar gwricwlwm yr ysgol drwy eu cynnwys mewn gwasanaethau boreol, amser dosbarthiadau tiwtorial ac ati. Mae Uned Cludiant y Cyngor ar gael i gynorthwyo i ddarparu gwybodaeth os oes angen.

- Os yw'r ysgol/coleg yn ystyried unrhyw newidiadau o ran adeiladwaith a allai effeithio ar y manau parcio/casglu yn yr ysgol/coleg, rhowch wybod i Uned Cludiant y Cyngor cyn gynted ag y bo modd.
- Gwnewch yn siwr bod pob gweithredwr cludiant yn derbyn copi o'r polisi rheoli traffig ar gyfer adeiladau eich ysgol/coleg chi.
- Er mwyn gweithredu'r Cod Ymddygiad hwn dylai'r holl staff perthnasol dderbyn gwybodaeth ddigonol a/neu hyfforddiant yn ei gynnwys a'i weithredu.